***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 932 (W.122)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003

*Wedi'i wneud - - 26 Mawrth 2003*

*Yn dod i rym fel y darparwyd yn erthygl 1*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 101(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

**Enw a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003.

(2) Mae'r Erthygl hon ac Erthygl 2(1) a (2), o'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Medi 2003.

(3) Mae Erthygl 2(3) yn dod i rym ar 1 Medi 2004.

**Diwygio Adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002**

**2.**—(1) Caiff Adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002 ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (b) mewnosodir —

"(ba) provision for personal and social education for all registered pupils at the school who are of compulsory school age,".

(3) Ar ôl paragraff (ba) (a fewnosodir yn unol â pharagraff (2)) mewnosodir —

"(bb) provision for work-related education for all registered pupils at the school during the fourth key stage,".

(**1**) 2002 p.32.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*

26 Mawrth 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru gynnwys cwricwlwm sylfaenol sy'n cwmpasu addysg grefyddol, y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymru ac addysg rhyw. Mae is-adran (3) yn galluogi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Gorchymyn sy'n diwygio is-adran (1) drwy ychwanegu gofynion pellach.

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi'i wneud o dan is-adran (3), yn ychwanegu dau ofyniad newydd at y cwricwlwm sylfaenol. Mae'r cyntaf, sydd i fod yn gymwys o 1 Medi 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm sylfaenol gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion cofrestredig o oedran ysgol gorfodol. Mae'r ail, sydd i fod yn gymwys o 1 Medi 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith i ddisgyblion sydd yng nghyfnod allweddol pedwar (disgyblion 14—16 oed yn fras).

Wrth addysgu plant mewn addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg gysylltiedig â gwaith mae'n rhaid rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol — gweler adran 100(8) o'r Ddeddf. Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau yng Nghylchlythyr cccc 13/2003, Cynulliad Cenedlaethol Cymru "Addysg Bersonal a Chymdeithasol ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn y Cyricwlwm Sylfaenol". Gellir cael copïau o Is-adran Safonau a Pherfformiad y Cynulliad a gellir eu gweld ar dysgu.cymru.gov.uk.